# CYNGOR CYMUNED BUAN

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd nos Iau, 10 Tachwedd, 2022
Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy

Presennol:

Cynghorwyr:

Catherine Hughes
Tesni Jones
Gareth Roberts
Phil Roberts
Dafydd Ll. Williams
Hughie Williams

Nerys Williams - Clerc

## 1. Ymddiheuriadau –

Cafwyd ymddiheuriadau gan:

Nia W. Jones
Rhys Jones
Einir Lewis

Cynghorydd Sirol - Anwen Davies

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Hughie Williams. Cadarnhawyd cofnodion 13 Hydref, 2022 yn gywir gan y Cynghorydd Phil Roberts ac fe eiliwyd gan y Cynghorydd Catherine Hughes.

## 3. Materion yn codi o'r cofnodion:-

Cronfa Covid 19 Llŷn ac Eifionydd – Wedi cael cadarnhad gan Weinyddwyr y Gronfa y byddant yn anfon canran o'n harian yn ôl atom ar ôl iddynt setlo'r cyfrifon.

Bil am Gostau Etholiad – Roedd y Cynghorydd Anwen Davies wedi gwirio'r bil am gostau etholiad ac fe'i gafwyd yn gywir. Bydd siec o £321.00 yn cael ei bostio i Cyngor Gwynedd yn fuan.

## 4. Materion Cynllunio – Cais Rhif C22/0705/33/LL – Tŷ Cynan, Rhydyclafdy –

Penderfynwyd:-

Cefnogi.

## 5. Datgan Diddordeb

Neb.

## 6. Ymatebion i ohebiaeth

Dim gohebiaeth.

## 7. Materion Ariannol

Derbyniwyd cysoniad banc o 4 Hydref, 2022 i 3 Tachwedd, 2022 yn gywir yn y swm o £3706.92.

Cafodd y sieciau isod eu harwyddo gan y Cynghorwyr Philip Roberts a Catherine Hughes ar ddiwedd y cyfarfod.

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd (Costau Etholiad) | £321.00 | Siec Rhif 200687 |
| Bacsal (Hyd at 30.06.2022) | £134.10 | Siec Rhif 200690 |
| Arfon Parry (Cradur.com) | £40.00 | Siec Rhif 200691 |
| Nerys Williams (Mis 8) | £111.79 | Siec Rhif 200692 |
| Cyllid a Thollau (Mis 8) | £28.00 | Siec Rhif 200693 |
| Bartle St. Tudwal's Ltd (Twnti) | £20.00 | Siec Rhif 200694 |

## 8. Unrhyw fater arall

Cafwyd cais ar lafar gan yr Arlunydd Teska, sydd yn byw ym mhentref Rhydyclafdy i gynnal arddangosfa Nadoligaidd ar Winllan Bach.

Pawb yn cefnogi.

Adroddod y Cynghorydd Hughie Williams bod y Di-ffib sydd wedi ei leoli yn Cwr y Coed, Boduan angen sylw. Penderfynwyd gofyn i Gethin Scott (Trydanwr) gael golwg arno. Y Clerc i gysylltu ag ef.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 p.m.

## 12. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf -

Nos Iau, 8 Rhagyr, 2022 am 7.30 p.m. yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy.